

# Cofnodion



## Cyngor

---

Dyddiad: Dydd Mawrth, 28 Tachwedd 2023

Amser: 5.00 pm

Bresennol: Cynghorwyr C Reeks, S Cocks, E Stowell-Corten, J Harris, A Screen, L James, T Harvey, M Howells, P Bright, J Peterson, A Pimm, D Batrouni, D Jenkins, P Drewett, B Davies, S Adan, M Pimm, C Baker-Westhead, J Reynolds, R Howells, A Sterry, G Horton, J Cleverly, P Cockeram, D Davies, M Al-Nuaimi, M Evans, D Harvey, M Linton, D Mayer, R Mogford, J Mudd, M Spencer, K Thomas, C Townsend, T Watkins, K Whitehead, J Clarke, Y Forsey, P Hourahine, J Hughes, J Jordan, L Lacey, S Marshall, W Routley, A Morris, F Hussain and B Perkins

---

### 1. Rhagofynion

#### 1.i Ymddiheuriadau

Y Cynghorwyr Fouweather, Jones a Kellaway

-

#### 1.ii Datgan Buddiannau

Y Cyngorydd Hughes, Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Eitem 7

Y Cyngorydd Hussain, Hysbysiad o Gynnig Eitem 5

-

#### 1.iii Cyhoeddiadau'r Llywydd

-

Gofynnodd yr Llywydd i'r Cyngor gymryd munud o dawelwch i gofio'r cyn-Faer Harry Williams a fu farw'r mis diwethaf a hefyd Diane Huntley, gwraig y cyn-Gyngorydd Paul Huntley.

### 2. Cofnodion

Derbyniwyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf ar 26 Medi 2023 yn gofnod cywir.

### 3. Apwyntiadau

#### Ystyried y penodiadau arfaethedig a nodwyd yn yr adroddiad

-

Cynigiodd y Cyngorydd Clarke y penodiadau a nodwyd yn yr adroddiad, fel y cytunwyd gan y Rheolwyr Busnes fel y nodir isod.

Eiliwyd yr adroddiad gan y Cyngorydd Reeks.

**Penderfynwyd:** Bod y penodiadau canlynol yn cael eu cytuno.

## Penodiadau Cyrff Llywodraethu

<b>Corff Llywodraethu</b>	<b>Penodiadau/Ymddiswyddiadau</b>	<b>Enw</b>
Partneriaeth Ysgol Gynradd Eveswell a Somerton	Ailbenodiad	Alan Speight
Partneriaeth Ysgol Gynradd Eveswell a Somerton	Anghymwyso	Geraldine French
Partneriaeth Ysgol Gynradd Eveswell a Somerton	Penodiad	Deiniol Parselle
Partneriaeth Ysgol Gynradd Gaer a Maesglas	Ymddiswyddo	Jackie Littlejohns
Partneriaeth Ysgol Gynradd Gaer a Maesglas	Penodiad	Rob Gregory
*Ysgol Gynradd Maerun	Penodiad	Sean Powell
Ysgol Gynradd Alway	Ymddiswyddo	Michelle Miles
Ysgol Gynradd Alway	Penodiad	Kaite Blair
Ysgol Gynradd Maendy	Ymddiswyddo	Maddy Cameron
Ysgol Gynradd Maendy	Penodiad	Gavin Horton

\*Trosglwyddwyd Suzanne Evans i fath arall o lywodraethwr

#### 4. Materion yr Heddlu

Cyflwynodd yr Llywydd Uwch-arolygydd Heddlu Gwent, J White, a roddodd y wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau'r Cyngor am faterion yr heddlu yn Nwyrain, Gorllewin a Chanol Casnewydd.

Gwahoddodd yr Llywydd yr Arweinydd i siarad gerbron yr Uwch-arolygydd White.

Roedd yr Arweinydd yn falch bod rhagor o arian diogelwch ar y stryd ar gael, a fyddai'n gwneud gwahaniaeth enfawr i'r gymuned.

Gofynnodd yr Arweinydd am sicrwydd y byddai cymorth swyddogion ar gael yng nghanol y ddinas yn ystod cyfnod yr ŵyl.

Dywedodd yr Uwcharolygydd White fod niferoedd swyddogion wedi cael eu dyblu yng nghanol y ddinas yn ystod y pedair wythnos ddiwethaf ar nos Wener a nos Sadwrn er mwyn cynyddu amlygrwydd. Mae'r gwasanaeth mewn cysylltiad â phartneriaid fel Pub Watch, Trwyddedu a landlordiaid, ac roedd swyddogion cymorth cymunedol yn dechrau eu sifftiau yn gynharach gyda'r nos i ddarparu cefnogaeth. Roedd yr Uwcharolygydd White hefyd yn edrych ar wasanaeth brysbennu ar gyfer materion y gellid delio â nhw fel arall i ddefnyddio adnoddau'r heddlu. Wrth symud ymlaen, roedd yr Uwcharolygydd White yn teimlo bod yr heddlu mewn lle da iawn i reoli'r pwysau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r cyfnod hwn.

Yn ogystal, gofynnodd yr Arweinydd pa gyngor y gallai'r heddlu ei roi i aelodau'r ward ar sut i roi gwybod am ddigwyddiadau.

Fe wnaeth yr Uwcharolygydd White annog trigolion pe bai argyfwng i ddeialu 999. Roedd y gwasanaeth 101 wedi gwella'n ddramatig, gyda Gwent yn y grym sy'n perfformio orau yn y wlad o ran delio â galwadau. Mae gwefan yr heddlu yn rhestru'r timau cymdogaeth lleol, ar gyfer adrodd am faterion lleol, fel pryderon ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae yna hefyd

sianeli cyfryngau cymdeithasol, sy'n cael eu monitro 24/7. Mae gwasanaethau wyneb yn wyneb ar gael yng Ngorsaf Ganolog Heddlu Casnewydd.

#### Cwestiynau i'r Heddlu a ofynnwyd gan y Cynghorwyr:

- Esboniodd y Cynghorydd Evans rôl SCCH a oedd yn rhoi cymorth allweddol mewn plismona cymunedol. Roedd y Cynghorydd Evans eisiau sicrwydd nad oedd cymunedau Casnewydd dan anfantais oherwydd rhewi recriwtio SCCH.

Cytunodd yr Uwcharolygydd White ar bwysigrwydd SCCH a sicrhaodd y Cynghorydd Evans fod lefelau da o gefnogaeth SCCH ar waith. Yn seiliedig ar anghenion a gofynion, byddent yn cael eu lleoli yn y gymuned lle bo angen.

- Cyfeiriodd y Cynghorydd Harvey at fater yr wythnos diwethaf lle rhoddwyd gorchymyn gwasgaru ar waith yn Ringland. Roedd y trigolion yn poeni ac yn pryderu. Felly, gofynnodd y Cynghorydd Harvey am gyfarfod cyhoeddus gyda'r heddlu a'r trigolion.

Byddai'r Uwcharolygydd White yn siarad â'r arolygydd i ddeall y mater a byddai'n gwneud pob ymdrech i drefnu cyfarfod cyhoeddus.

- Cyfeiriodd y Cynghorydd Adan at ffatrïoedd canabis mewn adeiladau segur a segur ar Commercial Street a gofynnodd sut y gellid atal hyn.

Nododd yr Uwcharolygydd lleol ar gyfer canol y ddinas eistedd ar grŵp gorchwyl gyda swyddogion eraill o'r Cyngor gan gynnwys Rheolwr Canol y Ddinas. Gofynnodd yr Uwcharolygydd White am gronfa ddata gyfoes o'r holl adeiladau yng nghanol y ddinas i ddarganfod pwy oedd landlordiaid a thenantiaid yr adeiladau hyn, yn ogystal â'r gweithgareddau ym mhob un o'r safleoedd i sicrhau eu bod yn gyfreithlon.

- Ar ran deiliaid y rhandiroedd yn Sain Silian diolchodd y Cynghorydd Hourahine i'r Uwcharolygydd White am roi'r gwrtait hyn a'r compost o ansawdd uchel, a oedd o ganlyniad i gyrch cyffuriau diweddar.

- Cyfeiriodd y Cynghorydd Mogford at e-sgwteri ac e-feiciau ac roedd yn pryderu am bobl ifanc yn defnyddio'r dulliau cludo hyn. Dywedodd yr Uwcharolygydd White fod tategau'r heddlu, yn cael eu defnyddio'n gymesur â'r drosedd.

- Cyfeiriodd y Cynghorydd Cocks at y terfyn pwysau 7.5 tonnau a anwybyddwyd gan yrwy'r HGV oedd yn gyrru trwy Gaerllion, a gofynnodd a ellid rhoi mesurau ar waith i atal hyn. Byddai'r Uwcharolygydd White yn cysylltu â'r tîm plismona lleol i roi rhywfaint o weithredu ar waith.

- Cyfeiriodd y Cynghorydd Morris at e-feiciau a gofynnodd a oedd unrhyw ffordd y gallai cyflenwyr y cynhyrchion hyn gael eu hatal yn y ffynhonnell. Soniodd yr Uwcharolygydd White fod angen i Safonau Masnach chwarae rhan weithredol, a byddai pwerau rheoleiddio diwygiedig yn cael eu croesawu.

- Diolchodd y Cynghorydd Forsey i SCCH am fynychu cymorthfeydd heddlu yn Nhŷ-du, a oedd yn ddefnyddiol i drigolion a chynghorwyr godi materion. Byddai'r Uwcharolygydd White yn diolch i'r Cynghorydd Forsey.

Ategodd y Cynghorydd Reynolds ddiolch y Cynghorydd Forsey a diolchodd i'r heddlu am ddigwyddiad mewn cartref gofal i bobl ifanc lle'r oedd yn gweithio.

## 5. Rhybudd o Gynnig: Gwesty'r Westgate

Gwahoddodd yr Llywydd y Cynghorydd Routley i gyflwyno'r cynnig, gyda'r Cynghorydd Mogford i'w eilio.

*Mae Gwesty'r Westgate, tirnod hanesyddol yn ein dinas, yn dal pwysigrwydd sylweddol fel trobwynt mewn hanes a ddatblygodd ddemocratiaeth fodern, sy'n ein hatgoffa o'n brwydrau dros gredoau gwleidyddol.*

*Rydym yn galw ar y Cyngor hwn i wneud popeth o fewn ei allu i sicrhau dyfodol yr adeilad hanesyddol hwn.*

*Gyda'ch cefnogaeth chi, gallem fod yn adennill yr adeilad rhyfeddol hwn, gan gadw ein hanes wrth lunio dyfodol disgleiriach i'r Westgate, y ddinas, a'n dinasyddion.*

Eglurodd y Cynghorydd Routley fod y cynnig wedi ei gyflwyno i'r Cyngor gan gyfeirio at bwysigrwydd mudiad y Siartwyr ac i uno'r Cyngor. Aeth y Cynghorydd Routley ymlaen i ddweud, ar 19 Hydref 2023, pan gafodd grŵp gwirfoddolwyr y Westgate eu cloi allan o Westgate heb rybudd. Roedd y grŵp hwn wedi gwneud gwaith rhyfeddol wrth ddathlu mudiad y Siartwyr a chefnogi Gwesty'r Westgate.

Y cynnig felly oedd cadw'r gorffennol. Roedd y Cynghorydd Routley eisiau cefnogaeth i'r cynnig, neu hyd yn oed y gwelliant i'r cynnig, i gydnabod ac anrhydeddu'r rhai a fu farw, sef y 22 dyn a gollodd eu bywydau yng Ngwesty'r Westgate ym 1839. Roedd y cynnig hwn felly'n ymwneud ag amddiffyn Gwesty'r Westgate a'i droi'n heneb fyw.

Cadwodd y Cynghorydd Mogford yr hawl i siarad ar ddiwedd y drafodaeth.

Cynigiodd y Cynghorydd Drewett y gwelliant canlynol i'r Cynnig:

*Mae Gwesty'r Westgate, tirnod hanesyddol yn ein dinas, yn symbol o bwynt arwyddocaol mewn hanes a ddatblygodd ddemocratiaeth fodern. Mae hyrwyddo a chadw ein hasedau diwylliannol a threftadaeth yn flaenoriaeth strategol i Gasnewydd.*

*Bydd y Cyngor hwn yn gwneud popeth o fewn ei allu i sicrhau dyfodol yr adeilad hanesyddol hwn trwy ei gynnwys yn y Cynllun Creu Lleoedd a'r Strategaeth Ddiwylliannol, ynghyd â mewnbyn gan yr holl randdeiliaid, gan warchod ein hanes wrth lunio dyfodol mwy disglair i'r Westgate, y ddinas a'n dinasyddion.*

Eiliodd y Cynghorydd Mudd y gwelliant i'r cynnig.

Ar gais y Cynghorydd Evans, dosbarthwyd y gwelliant i'r Aelodau er gwybodaeth.

Cadwodd y Cynghorydd Mudd yr hawl i siarad ar ddiwedd y drafodaeth.

Soniodd y Cynghorydd Drewett mai'r gwahaniaeth sylweddol rhwng y cynnig gwreiddiol a'r gwelliant oedd ei fod yn ystyried bod Gwesty'r Westgate eisoes yn mynd i fod yn rhan o'r Cynllun Creu Lleoedd a'r Strategaeth Ddiwylliannol.

Cadwodd y Cynghorydd Drewett yr hawl i siarad ar ddiwedd y drafodaeth.

Sylwadau gan y Cynghorwyr:

- Cafodd y Cynghorydd Hughes ei synnu gan y cynnig gwreiddiol ac er bod y gwelliant yn cael ei werthfawrogi, roedd yr etifeddiaeth i amddiffyn democratiaeth a'r hyn yr oedd y Siartwyr yn ceisio'i gyflawni yn bwysicach.

- Roedd y Cynghorydd Screen yn cefnogi'r gwelliant, ac roedd yn ystyried ei fod yn ymwneud â chadw treftadaeth ddiwylliannol Casnewydd.
- Cefnogodd y Cynghorydd D Davies y gwelliant, a oedd yn canolbwyntio ar Gasnewydd fel dinas diwylliant, hanes a democratiaeth. Roedd hwn yn fater allweddol fel rhan o'r Cynllun Creu Lleoedd.
- Roedd y Cynghorydd Morris yn falch o ddod o Gasnewydd, oherwydd y cysylltiad gyda Siartiaeth. Hoffai'r Cynghorydd Morris hefyd weld Gwesty'r Westgate yn dod yn Safle Treftadaeth y Byd ac ychwanegodd ei fod yn gobeithio bod ei gydweithwyr yn y Cyngor i gyd yn cytuno i warchod Gwesty'r Westgate, a allai wneud gwahaniaeth i Gasnewydd. Felly, cefnogodd y Cynghorydd Morris y ddau gynig.
- Gwelodd y Cynghorydd M Howells yn y gwelliant gynig i gynnwys Cynllun Creu Lleoedd ar gyfer canol y ddinas, a oedd yn cynnwys Strategaeth Ddiwylliannol. Felly, croesawodd y Cynghorydd Howells y gwelliant.
- Teimlai'r Cynghorydd Cocks fod y gwelliant wedi gwella'r cynnig gwreiddiol ac felly cefnogodd ef fel cynnig o sylwedd.
- Cofiodd y Cynghorydd Evans fod Gwesty'r Westgate yn adeilad rhestredig gradd II yn llawn bywyd yn ddiweddar, a oedd yn cynnal dawnsfeydd a phriodasau ac nad oedd am ei weld yn mynd i gyflwr adfail pellach. Felly, cefnogodd y Cynghorydd Evans y gwelliant.
- Cefnogodd y Cynghorydd Batrouni y gwelliant a soniodd fod y Cynghorydd Drewett yn hyrwyddo Gwesty'r Westgate a bod y Cynllun Creu Lleoedd yn bwynt allweddol pwysig o'r gwelliant i'r cynnig a roddwyd gan y Cynghorydd Routley.
- Siaradodd y Cynghorydd Routley â'r gwelliant gan roi ei reswm pam y cafodd ei gyflwyno. Roedd y Cynghorydd Routley yn falch bod y cynnig gwreiddiol wedi gallu helpu i achub Gwesty'r Westgate a gwarchod y dyfodol.
- Nododd y Cynghorydd Hourahine, er bod Gwesty'r Westgate yn bwysig iawn, bod y Strategaeth Ddiwylliannol yn cefnogi democratiaeth.
- Roedd y Cynghorydd Whitehead o'r farn y byddai canolfan dreftadaeth yn dda fel catalydd ar gyfer adfywio'r ardal ac awgrymodd grŵp llywio o bob ochr wleidyddol i gymryd rhan.
- Cefnogodd y Cynghorydd Al-Nuaimi y gwelliant i weld y gwesty yn dod yn fyw a dod yn rhan o'r darlun diwylliannol a threftadaeth yng Nghasnewydd. Fodd bynnag, roedd y gwesty yn eiddo preifat a dylai'r Cyngor annog y perchennog i gymryd rhan yn y datblygiad, neu fel arall dadl academiaidd oedd hon.
- Diolchodd y Cynghorydd Mudd i bawb a gyfrannodd, gan ychwanegu bod hyn yn bwysig i'r Aelodau a'r trigolion. Roedd y grŵp mwyafrifol yn rhan o'i fanifesto ei Gynllun Creu Lleoedd, gydag ymrwymiad cadarn i ymgysylltu â rhanddeiliaid. Wrth symud ymlaen, yn 2024, byddai'r strategaeth a'r cynllun yn cael eu datblygu.
- Soniodd y Cynghorydd Drewett fod symud y gwelliant yn ein hatgoffa o'r hyn a gyflawnodd y Siartwyr. Rhan o'r Cynllun Creu Lleoedd oedd y dylai Casnewydd fod yn gyrchfan treftadaeth a hawliau sifil a gellid defnyddio treftadaeth Casnewydd at ddibenion twristiaeth, addysg a buddsoddi. Gofynnodd y Cynghorydd Drewett i

gydweithwyr barhau â'r dasg hon ac yn dathlu hynafiaid Casnewydd y tu hwnt i Westy'r Westgate.

- Tynnodd y Cynghorydd Routley y cynnig gwreiddiol yn ôl, gyda chytundeb ei eilydd y Cynghorydd Mogford, a derbyniodd y Cynghorydd Evans y gwelliant i'r cynnig fel y cynnig o sylwedd a'i gefnogi.

**Penderfynwyd:**

- Cefnogodd y Cyngor y gwelliant i'r cynnig, a ddaeth felly yn gynnig o sylwedd. Cefnogodd y Cyngor y cynnig.

**6. Adroddiad Monitro Hanner Blwyddyn ar Reoli'r Trysorlys**

Cyflwynodd y Llywydd adroddiad rheoli trysorlys y Cyngor a oedd yn amlinellu'r gweithgaredd ar gyfer hanner cyntaf 2023-2024 a chadarnhaodd fod gweithgareddau'r trysorlys a gwblhawyd hyd yn hyn yn ystod y flwyddyn yn cydymffurfio â Strategaeth y Trysorlys a ystyriwyd yn flaenorol ac a osodwyd gan yr Aelodau.

Cymharodd yr adroddiad weithgaredd â'r sefyllfa diwedd blwyddyn ar gyfer 2022/23 a manylu ar y symud rhwng Ebrill a Medi 2023/24 a'r rhesymau dros y symudiadau hynny. Dyma oedd y cyntaf o ddau adroddiad a dderbyniwyd ar reoli'r trysorlys yn ystod y flwyddyn.

Roedd yr adroddiad yn amlygu'r wybodaeth ganlynol:

- Cytunwyd ar atgoffa o Strategaeth y Trysorlys.
- Manylion gweithgareddau benthycy a buddsoddi drwy gydol y flwyddyn ▪ Ystyriaethau economaidd ehangach e.e. hinsawdd economaidd ▪ Rhagolwg tymor canolig i hir ar gyfer angen benthycy.
- Gan derfynu drwy archwiliad o weithgareddau yn erbyn dangosyddion darbodus, yn cadarnhau cydymffurfiaeth.

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn y cyfarfod mis Hydref ac fe'i cymeradwywyd ganddynt cyn i'r adroddiad gael ei ystyried gan y Cabinet ar 15 Tachwedd.

Roedd yr uchafbwyntiau allweddol yn cynnwys y lefel benthycy, a oedd, ar 30 Medi 2023, wedi gostwng gan £3.1m o sefyllfa alldro 2022/23 ac a oedd bellach yn £135.5m.

Roedd y gostyngiad hwn mewn perthynas â:

- Nifer o fenthyciadau a gafodd eu had-dalu mewn rhandaliadau dros oes y benthyciad.
- Ad-dalu dau fenthyciad aeddfedwydd bach y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (BBGC) ddiwedd mis Medi, nad oedd angen eu hailgyllido.
- Cafodd hyn ei ddiwynnu gan swm lleiaf posibl o fenthycy hirdymor newydd a wnaed, cyfanswm o £300k gan Salix a oedd yn ddi-log ac yn gysylltiedig â phrosiect effeithlonrwydd ynni penodol.

Ar ddiwedd mis Medi, roedd benthycy cyffredinol y Cyngor hefyd yn cynnwys chwe benthyciad Opsiwn Rhoddwr Benthyciadau/Opsiwn Benthyciwr (ORhBOB) gwerth cyfanswm o £30m. Er nad oedd y benthyciadau hyn yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn yn destun unrhyw newid mewn cyfraddau llog, ddiwedd mis Hydref a Thachwedd derbyniodd y Cyngor hysbysiad bod tri benthyciwr o ORhBOB gwerth £15m wedi dewis cynyddu'r cyfraddau llog.

Yn dilyn cyngor gan gynghorwyr trysorlys y Cyngor, fe wnaeth y Cyngor adennill y benthyciadau, yn hytrach na derbyn y gyfradd llog uwch. Roedd hyn oherwydd bod y gyfradd llog ddiwygiedig yn uwch na'r gyfradd bresennol ac naill ai yn debyg i'r cyfraddau benthycy

cyfredol drwy'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (BBGC) neu'n sylweddol uwch. Rheolodd y Cyngor yr ad-daliadau hyn trwy gyfuniad o ddefnyddio balansau buddsoddi sydd ar gael a gwneud cais am un benthyciad BBGC hirdymor newydd o £5m.

Er y byddai peidio ailgyllido dau o'r benthyciadau hyn yn y pen draw yn cyflymu angen gwaelodol y Cyngor i fenthyc yn allanol o'r newydd, roedd gadael o drefniadau ORhBOB yn caniatáu i'r Cyngor ddad-beryglu elfen o'i bortffolio benthyc, trwy ddileu'r risg o gynydd pellach yn y gyfradd llog ar y benthyciadau penodol hyn.

Cynyddodd lefel y buddsoddiadau gan £7.4m i £54.7m. Rhagwelwyd y byddai balansau buddsoddi, fodd bynnag, yn lleihau yn naturiol wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen, yn bennaf oherwydd cynnydd o ran darparu cynlluniau cyfalaf.

Darparodd yr adroddiad ddangosydd blaengar o'r enw Meincnod Atebolrwydd, a oedd yn rhoi darlun graffigol o ofyniad benthyc presennol y Cyngor ac yn y dyfodol. Roedd hwn yn ddangosydd pwysig i'w ddeall gan ei fod yn dangos yr effaith a gafodd penderfyniadau a wnaed nawr mewn perthynas â gwariant cyfalaf ar y gofyniad benthyc net hirdymor, sy'n effeithio yn y pen draw ar y gyllideb refeniw ar ffurf costau cyllido cyfalaf.

Roedd angen hirdymor sylfaenol y Cyngor i fenthyc, ynghyd â'r angen i ailgyllido benthyciadau presennol, yn golygu y byddai'r Cyngor yn agored i gyfradd llog uwch nag a brofwyd dros y blynyddoedd diwethaf. O ganlyniad, parhaodd y Cyngor i ohirio'r angen i fenthyc yn hirdymor cyhyd â phosibl. Gobeithiwyd, trwy fabwysiadu'r dull hwn, y gallai cyfraddau llog fod wedi gostwng o'u lefelau presennol erbyn yr adeg y byddai angen benthyc o'r newydd, gan leihau'r effaith ar gyllideb refeniw gwneud benthyciadau newydd i ryw raddau. Byddai unrhyw benderfyniad ynghylch cynnal benthyciadau hirdymor ychwanegol yn cael ei wneud yn unol â chyngor gan gynghorwyr trysorlys y Cyngor a dim ond lle byddai budd ariannol clir a'r angen i wneud hyn.

Yn olaf, mae'r Awdurdod yn mesur ac yn rheoli ei amlygiad i risgiau rheoli'r trysorlys gan ddefnyddio gwahanol ddangosyddion darbodus, fel yr amlinellwyd yn Atodiad A. Cadarnhaodd yr adroddiad fod y Cyngor wedi cydymffurfio â'r Dangosyddion Darbodus a osodwyd ar gyfer 2023/24 ar gyfer hanner cyntaf y flwyddyn.

#### **Penderfynwyd:**

Nododd y Cyngor yr adroddiad ar weithgareddau rheoli'r trysorlys yn ystod hanner blwyddyn gyntaf 2023-24.

## **7. Cynllun Ardal Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gwent/Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gwent**

Cyflwynodd y Llywydd yr Arweinydd i roi'r adroddiad nesaf, sef Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh) Gwent fel sy'n ofynnol yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Roedd dyletswydd statudol ar y Bwrdd dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (GCLI) (Cymru) 2014 ac fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 i lunio adroddiad blynyddol a chynllun ardal. Yna rhaid cyflwyno'r dogfennau hyn a'u hystyried drwy strwythurau pob un o'r cyrff sy'n ffurfio aelodaeth y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

Nododd Llywodraeth Cymru y fframwaith statudol ar gyfer datblygu y Cynllun Ardal Rhanbarthol i gynnwys sut y byddai blaenoriaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar y cyd yn cael eu cyflawni mewn partneriaeth ar draws y rhanbarth, a'r Adroddiad Blynyddol.

Roedd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn cofleidio ac yn mabwysiadu egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn llawn ac roedd wedi'i alinio'n llwyr ag egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Wrth droi at yr adroddiad ei hun, nodwyd y cynnydd o ran cyflawni ein Cynllun Ardal yn Adroddiad Blynyddol y BPRh.

Amlygodd yr adroddiad y gwaith a wnaed mewn partneriaeth ar draws gofal cymdeithasol ac iechyd. Roedd yn darparu enghreifftiau cryf o fanteision gweithio mewn partneriaeth a sut yr effeithiodd y gwaith ar ddinasyddion yn gadarnhaol.

Roedd yr Arweinydd yn falch o nodi bod trafod da gyda'r Aelodau pan gyflwynwyd yr adroddiad i Bwyllgor Craffu Perfformiad ar gyfer Partneriaethau'r Cyngor ddydd Mawrth 10 Hydref.

#### Sylwadau gan y Cynghorwyr:

- Soniodd y Cynghorydd Hughes fod y cynllun yn nodi'r ffocws ar awdurdodau ar y cyd o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ogystal â darparu gofal teuluol a phartneriaethau cymunedol cryf. Diolchodd y Cynghorydd Hughes i'r staff a helpodd i gynhyrchu'r adroddiad a'r Pwyllgor Craffu Perfformiad – Partneriaethau am ei fewnbwn.
- Ychwanegodd y Cynghorydd D Davies mai'r positif enfawr oedd gwneud Gwent y Rhanbarth Marmot cyntaf yng Nghymru. Tynnodd y Cynghorydd Davies sylw at yr egwyddorion i gydweithwyr a pham yr oeddent yn bwysig wrth herio a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau.
- Ychwanegodd y Llywydd, fel cyn-Gadeirydd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, ei fod yn dod ag iechyd a chynghorau ynghyd i gyflawni mwy.

#### **Penderfynwyd:**

- Bod y Cyngor yn ystyried yr ymrwymïadau rhanbarthol ar y cyd o fewn y Cynllun Ardal.
- Bod y Cyngor yn adolygu Adroddiad Blynyddol y BPRh a'r cynnydd a wnaed yn erbyn yr amcanion; a rhoddodd unrhyw adborth/sylwadau.

## **8. Adroddiad Blynyddol Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2022/23**

Cyflwynodd y Llywydd yr Arweinydd i roi cyflwyniad ar Adroddiad Blynyddol y Cyngor ar y cynnydd yn erbyn ei Gynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024.

Dan Ddeddf Cydraddoldeb (2010), mae angen i'r Cyngor adrodd yn flynyddol ar y cynnydd y mae'n ei wneud yn erbyn yr amcanion cydraddoldeb strategol a gynhwysir o fewn ei Gynllun Cydraddoldeb Strategol ynghyd a data cydraddoldeb staff.

Cafodd yr Adroddiad Blynyddol ei adolygu gan y Pwyllgor Rheoli Craffu a Throsolwg y Cyngor a Chabinet y Cyngor. Cafodd eu sylwadau eu cynnwys yn yr adroddiad.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r drydedd flwyddyn o gyflawni yn erbyn Amcanion Cydraddoldeb Strategol y cytunwyd arnynt gan y Cyngor hwn.

Amlygodd y crynodeb o gyflawniadau y cynnydd yn erbyn pob un o'r amcanion, fel:



1. Ysgol Uwchradd Llanwern yn derbyn Gwobr MBE Betty Campbell gyntaf am ei gwaith ar wrth-hiliaeth.
2. Defnyddio cyllidebu cyfranogol a ddsbarthodd gyllid i 44 o brosiectau cymunedol lleol yn ystod y flwyddyn ariannol hon yn unig.
3. Hyrwyddo, cefnogi a dathlu amrywiaeth ar draws y ddinas yn ystod dyddiadau arwyddocaol, gan gynnwys Eid al-Fitr, Hanes Pobl Dduon Cymru, Diwrnod Gwrth-Hiliaeth y Cenhedloedd Unedig ac, wrth gwrs, Pride in the Port, Digwyddiad Pride cymunedol Casnewydd, a oedd yn mynd o nerth i nerth ac a oedd yn enghraifft wirioneddol o sut y daeth cymunedau at ei gilydd i gyflawni llwyddiant.

Roedd yn galonogol gweld y cynnydd a wnaed gan gynnwys cau'r bwloch cyflog rhwng y rhywiau ymhlith swyddogion a chydaddoldeb rhywedd yn amlwg yn y Cabinet.

Daeth yr adroddiad i ben gyda data a gwybodaeth cydraddoldeb staff yn sail i'r ymrwymiad parhaus i weithio tuag at weithlu a oedd yn adlewyrchu'r cymunedau ledled ein dinas. Mae hwn yn amcan allweddol o fewn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r Cynllun Pobl newydd (y ddau i'w cyhoeddi yn 2024) ac mae wedi'i ymwreiddio yn y Cynllun Corfforaethol.

#### Sylwadau gan y Cynghorwyr:

- Diolchodd y Cynghorydd Batrouni i'r staff am eu hymrwymiad i gydraddoldeb a chanmolodd gwaith y rhwydweithiau staff.
- Cyfarfu'r Cynghorydd Hussain â grwpiau lleiafrifoedd ethnig fel rhan o'r rhwydwaith staff, clywodd eu pryderon a byddai'n cymryd camau ymlaen.
- Cefnogodd y Cynghorydd Cocks yr adroddiad a'r drafodaeth yn y Pwyllgor Craffu Perfformiad
  - Partneriaethau. Nododd y Cynghorydd Cocks fod dyletswydd gyfreithiol a moesol ar Gasnewydd i leihau gwahaniaethau canlyniadau i bobl o gefndiroedd ethnig gwahanol drwy fynd allan i'r gymuned a siarad â phobl. Gwnaeth yr ystod o weithgareddau a gynhaliwyd argraff dda ar y Cynghorydd Cocks ac roedd y rhan o'r adroddiad yn canolbwyntio ar ddata, a oedd yn sail i bolisi cydraddoldeb effeithiol yn ei farn ef ac y byddai'n gwneud gwahaniaeth i'r hyn a wnaeth Cyngor Dinas Casnewydd yn y dyfodol.

#### **Penderfynwyd:**

Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r adroddiad monitro terfynol i'w gyhoeddi ar wefan y Cyngor, yn unol â therfynau amser statudol.

#### **9. Adroddiad Blynyddol Cynllun Corfforaethol 2022/23**

Cyflwynodd yr Arweinydd Adroddiad Hunanasesiad Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2022/23 i gydweithwyr y Cyngor.

Hwn oedd yr adroddiad blynyddol cyntaf ar gynnydd y gwaith o gyflawni yn erbyn Cynllun Corfforaethol 2022 i 2027, a gymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Tachwedd 2022.

Paratowyd yr adroddiad yn unol â'r gofynion yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2014 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Roedd yr adroddiad blynyddol yn adlewyrchu ar y cynnydd a wnaed gan y Cyngor a'i bartneriaid wrth gyflawni'r Cynllun Corfforaethol a'r pedwar Amcan Lles.

Roedd yr adroddiad yn cydnabod yr heriau y mae Casnewydd a llawer o awdurdodau lleol eraill yn eu hwynebu i ddarparu gwasanaethau yng nghyd-destun pwysau cynyddol, wrth gefnogi cartrefi a busnesau drwy'r argyfwng costau byw a sicrhau bod cyllideb wedi'i mantoli sy'n gynaliadwy yn ariannol yn cael ei chyflawni.

Roedd yr adroddiad blynyddol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor fyfyrion ar ei berfformiad ac amlinellodd sut y dechreuodd y Cyngor yn gadarnhaol mewn dau o'r pedwar amcan Lles gyda'r ddau amcan Lles sy'n weddill angen eu gwella ymhellach.

Er gwaethaf yr heriau hyn, dangosodd Prif Weithredwr y Cyngor, yr uwch dîm arwain, a swyddogion o bob rhan o'r Cyngor yr effaith gadarnhaol y mae gwasanaethau wedi'i chael.

Roedd y Cyngor hefyd yn gwrandao ar farn trigolion a'r rhai sy'n defnyddio ei wasanaethau, yn ogystal â chydweithio â sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus, dielw a'r sector preifat i wella gwasanaethau.

Roedd yn bwysig i bob aelod ddeall y pwysau hyn a chydweithio i wella gwasanaethau i sicrhau bod y Cyngor yn parhau i ddarparu'r gwasanaethau gorau i drigolion Casnewydd.

#### Sylwadau gan y Cynghorwyr:

- Croesawodd y Cynghorydd Bright yr adroddiad a chyfeiriodd at ddau brosiect oedd yn cael eu cynnal yn Sain Sllian, sef y prosiect Cartrefi Cynnes a'r Prosiect Graffiti. Felly, croesawodd y Cynghorydd Bright yr adroddiad.

#### **Penderfynwyd:**

Cymeradwyodd y Cyngor adroddiad hunanasesu blynyddol Cynllun Corfforaethol 2022/23.

#### **10. Diwygio Cyfansoddiad y Cyngor - 'Rheolau gweithdrefn Fframwaith y Gyllideb'**

Gwahoddodd yr Llywydd y Cynghorydd Mogford, Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i gyflwyno i'r Cyngor argymhellion y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd y gwnaed gwelliannau i Reolau Gweithdrefn Fframwaith Cyllidebol a Pholisi y Cyngor o dan Ran 4 o'r Cyfansoddiad.

Bwriad y gwelliannau arfaethedig oedd sicrhau bod Cyfansoddiad y Cyngor yn cyd-fynd â Chyfansoddiad Model Cymru ac yn helpu i gefnogi prosesau gwneud penderfyniadau'r Cyngor wrth bennu cyllideb wedi'i mantoli bob blwyddyn yn unol â gofynion statudol.

Yn dilyn cyfarfod gosod cyllideb 2023/24 y Cyngor llawn ym mis Chwefror 2023, cynhaliodd y Pennaeth Cyllid a Monitro adolygiad o Gyfansoddiad y Cyngor ynghylch rheolau gweithdrefn y gyllideb.

Daeth yr adolygiad i ben gyda'r argymhellion, er bod Cyfansoddiad y Cyngor yn cyd-fynd yn fras â 'Model Cymru', roedd angen diwygiadau i'r rheolau gweithdrefn ar gyfer cynigion cyllideb amgen i'w cyflwyno cyn cyfarfod y Cyngor sy'n pennu'r gyllideb, a gynhelir ddiwedd mis Chwefror bob blwyddyn.

Gellir crynhoi'r diwygiadau a argymhellir fel a ganlyn:

- i) Bod yr Aelodau'n cyflwyno unrhyw ddiwygiadau arfaethedig i'r Gyllideb ddrafft i'r Pennaeth Cyllid a'r Swyddog Monitro i'w hystyried erbyn 4pm o leiaf bum diwrnod clir cyn cyfarfod Cyllideb y Cyngor llawn.
- ii) O fewn yr amserlen hon, rhoddir amser a chyfle i swyddogion ystyried addasrwydd unrhyw welliannau arfaethedig; a

- iii) Bod rheolau'r gyllideb a'r weithdrefn fframwaith polisi yn cael eu gwahanu i sicrhau bod proses gosod y gyllideb yn cael ei gwahaniaethu oddi wrth y fframwaith polisi i sicrhau y gellir cytuno ar gyllideb derfynol mewn pryd ar gyfer y dyddiad cau statudol o 11 Mawrth bob blwyddyn.

Cafodd y gwelliannau a amlinellwyd eu hymgorffori yn y ddogfen Rheolau Cyllideb a Gweithdrefnau Polisi ddiwygiedig drafft a gynhwyswyd gyda'r adroddiad i'r Cyngor fel Atodiad 1.

Ystyriodd y Pwyllgor Gwasanaethau Democraataidd adroddiad y Pennaeth Cyllid a'r Swyddog Monitro mewn perthynas â'r diwygiadau hyn yn eu cyfarfod ar 20 Tachwedd a chymeradwyodd y gwelliannau arfaethedig fel y'u drafftwyd, gyda'r argymhelliad y dylid bwrw ymlaen â'r cynigion i'w cymeradwyo gan y Cyngor llawn.

#### Sylwadau gan y Cynghorwyr:

- Cyfeiriodd y Cynghorydd M Howells at wallau yn yr adroddiad a thynnodd sylw cydweithwyr at Benderfyniadau Brys paragraff 2.5, a gyfeiriodd at 2.4 yn lle 2.6. Ailadroddwyd y camgymeriad hwn ddwywaith.

Gofynnodd y Cynghorydd Howells hefyd am eglurhad ar gynnig gan Aelod i ddiwygio'r gyllideb, a gafodd ei eilio a'i chyflwyno i'r Swyddog Priodol bum niwrnod cyn y Cyngor. Gofynnodd y Cynghorydd Howells a fyddai hyn yn cael ei drin yn gyfrinachol neu a fyddai'n wybodaeth gyhoeddus.

Dywedodd y Swyddog Monitro y byddai'n cael ei roi i'r Cabinet cyn dod i gytundeb cyn cyfarfod y Cyngor. Pe na bai'n cael ei dderbyn, byddai'n cael ei drafod yn y Cyngor.

#### **Penderfynwyd:**

Cymeradwyodd a mabwysiadodd y Cyngor ddiwygiadau i Gyfansoddiad y Cyngor yn unol â 'Chyfansoddiad Model Cymru' a chefnogodd y Cyngor i fodloni ei ofynion statudol o ran gwneud penderfyniadau ynghylch cyllideb y Cyngor.

## **11. Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau 2022/23**

Croesawodd yr Llywydd Andrew Mitchell, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau i'r Cyngor i ddarparu crynodeb o waith y Pwyllgor Safonau yn y 12 mis blaenorol a nodi'r flaenraglen waith.

Roedd y Cadeirydd yn falch o gyflwyno Adroddiad Blynyddol Pwyllgor Safonau 2022/23 i'r Cyngor.

Hwn oedd degfed Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau yn nodi'r gwaith a wnaed gan y Pwyllgor yn ystod y 12 mis diwethaf.

Roedd yr Adroddiad Blynyddol yn ymdrin â chyfnod byrrach na'r arfer, rhwng mis Rhagfyr 2022 a mis Mawrth 2023 ac yn dilyn yr adroddiad diwethaf a gyflwynwyd i'r Cyngor ym mis Tachwedd 2022. Cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol i'r Cyngor yn flaenorol ar sail wirfoddol. Fodd bynnag, cyflwynodd Adran 63 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ddyletswydd statudol ychwanegol o dan Ran 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor Safonau wneud adroddiad blynyddol ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol ac i'r Cyngor llawn ystyried yr adroddiad hwnnw o fewn tri mis. Er mwyn cefnogi'r newid hwn, ystyriodd yr adroddiad hwn gyfnod byr a oedd yn rhychwantu o adeg cyflwyno'r adroddiad diwethaf, hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Roedd y Cadeirydd yn edrych ymlaen at ddod yn ôl i gyflwyno'r Adroddiad Blynyddol llawn nesaf yn Haf 2024.

Crynhodd yr adroddiad statudol sut y cyflawnodd y Pwyllgor ei swyddogaethau trwy ystyried adroddiadau a champau gweithredu neu argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor neu a gyfeiriwyd ato neu a gyfeiriwyd ato. Yn ogystal, roedd yr Adroddiad Blynyddol yn cynnwys asesiad o'r graddau y mae arweinwyr grwpiau gwleidyddol ar y Cyngor wedi cydymffurfio â'u dyletswyddau newydd i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel o fewn eu grwpiau. Roedd y Cadeirydd yn falch o nodi ymrwymiad Arweinwyr Grwpiau i'w dyletswydd newydd i adrodd i'r Pwyllgor Safonau: er bod hyn yn dal i fod yn y cam cynllunio yn ystod y cyfnod adrodd, eglurodd Arweinwyr y Grŵp eu hymrwymiad i gyflawni'r gofyniad hwn.

Roedd y Pwyllgor Safonau yn fodlon bod yr Adroddiad Blynyddol hwn i'r Cyngor llawn yn bodloni gofynion Deddf 2021. Mae'r Pwyllgor Safonau wedi ymrwmo i hyrwyddo safonau uchel o ymddygiad moesegol ymhlith Aelodau etholedig a swyddogion i gynnal hyder y cyhoedd mewn llywodraeth leol. Parhaodd y Pwyllgor i adolygu'n rhagweithiol yr holl bolisiâu a gweithdrefnau safonau moesegol fel rhan o'r flaenraglen waith.

Eleni, roedd y Cadeirydd yn falch o adrodd na chafodd cwynion difrifol am gamymddwyn eu cyfeirio at y Pwyllgor Safonau gan yr Ombwdsmon yn ystod y cyfnod adrodd ac ni chafodd cwynion eu cyfeirio i'w penderfynu gan y Pwyllgor o dan Gyfnod 3 y Protocol Datrysiaid Lleol. Yn olaf, manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i ddiolch i holl Aelodau'r Pwyllgor a swyddogion y Cyngor am eu cyngor a'u cefnogaeth drwy gydol y 12 mis diwethaf.

#### Sylwadau gan y Cynghorwyr:

- Soniodd y Cynghorydd M Howells y dylid cyflwyno Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau i'r Cyngor ddim mwy na thri mis ar ôl y flwyddyn ariannol fel sy'n ofynnol yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ac felly gofynnodd pam fod yr adroddiad yn hwyr. Dywedodd y Swyddog Monitro y byddai'r adroddiad Blynyddol nesaf yn bodloni'r amserlenni deddfwriaethol newydd fel y nodir yn y diweddariad hwn ac y byddai'n rhoi rhywfaint o eglurhad pellach ynghylch gofynion y ddeddfwriaeth ar ôl y cyfarfod.
- Diolchodd yr Llywydd i Andrew Mitchell am ei waith fel Cadeirydd ar y Pwyllgor Safonau.

#### **Penderfynwyd:**

Bod y Cyngor yn derbyn Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2022/23 a nodi'r flaenraglen waith.

## **12. Adroddiad Blynyddol y Gwasanaethau Democraidd 2022/23**

Unwaith eto, gwahoddodd yr Llywydd y Cynghorydd Mogford, fel Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democraidd, i roi crynodeb o waith y Pwyllgor Gwasanaethau Democraidd yn y 12 mis blaenorol a nodi'r flaenraglen waith.

Roedd y Cadeirydd yn falch o gyflwyno Adroddiad Blynyddol Pwyllgor Gwasanaethau Democraidd 2022/23 i'r Cyngor.

Roedd Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor adrodd yn flynyddol i'r Cyngor ar y gwaith a wnaed yn ystod y 12 mis diwethaf a'i raglen waith yn y dyfodol.

Roedd yr adroddiad blynyddol hwn yn ymdrin â'r cyfnod rhwng Tachwedd 2022 a Hydref 2023.

Roedd y Pwyllgor yn grŵp gwleidyddol cytbwys a oedd yn gweithio gyda'i gilydd mewn modd amhleidiol i ystyried gwahanol agweddau ar y Cyfansoddiad a materion eraill a effeithiodd ar lywodraethu'r Cyngor.

Amlygodd yr adroddiad y gwaith pwysig a wnaed gan y Pwyllgor y llynedd, a gyfarfu bum gwaith yn ystod y 12 mis diwethaf.

Amlygodd y Cynghorydd Mogford nifer o eitemau a ystyriwyd gan y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys cyfarfodydd ward, trefniadau cyfansoddiadol a hyfforddiant a datblygiad.

Manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i ddiolch i aelodau'r pwyllgor am eu gwaith yn ystod y cyfnod hwn ac roedd yn edrych ymlaen at gyflawni rhaglen waith y Pwyllgor yn ystod 2024.

**Penderfynwyd:**

Derbyniodd y Cyngor Adroddiad Blynyddol y Gwasanaethau Democrataidd ar gyfer 2022/23.

**13. Cwestiynau i Arweinydd y Cyngor**

Cyn dechrau gyda chwestiynau, gwnaeth yr Arweinydd y cyhoeddiadau canlynol i'r Cyngor:

Parth buddsoddi

Yr wythnos diwethaf, gwnaeth y Canghellor y cyhoeddiad a groesawyd yn fawr y byddai parth buddsoddi yn Ne-ddwyrain Cymru yn cael ei ddatblygu o amgylch y clwstwr lled-ddargludyddion cyfansawdd.

Mae hyn yn newyddion gwych i'r sector lled-ddargludyddion yng Nghasnewydd, y ddinas a'i thrigolion, a'r rhanbarth ehangach.

Mae Casnewydd yn gartref i glwstwr lled-ddargludyddion cyntaf y byd sydd, gyda'r gefnogaeth a'r gydnabyddiaeth gywir, â'r potensial i sicrhau buddion sylweddol i'r economïau lleol a chenedlaethol.

"Dylai parth buddsoddi ddarparu'r gefnogaeth sydd ei hangen i helpu'r diwydiant lled-ddargludyddion i fod yn uwch-bŵer gwyddonol gyda Chasnewydd wrth galon y weledigaeth hon.

Mae'r fenter, y gallu a'r seilwaith i gyflawni hyn eisoes ar waith i raddau helaeth ac mae'r diwydiant lleol yn gadarn gyda chysylltiadau da. Mae partneriaethau cryf ar waith a fyddai hefyd yn allweddol i gyflawni yn llwyddiannus.

"Byddai parth buddsoddi yn darparu llu o fuddion i bobl leol: mwy o swyddi sgiliau uchel, mewnffuddsoddi a thwf economaidd - a byddai pob un ohonynt yn troi'n ffyniant i gymunedau Casnewydd. Mae manteision ehangach i'r DU ehangach hefyd o ran diogelwch cenedlaethol.

"Byddai darparu parth buddsoddi yn ategu'r gwaith sydd eisoes ar y gweill i sefydlu Sefydliad Technoleg Cenedlaethol i Gymru, gan ganolbwyntio ar y cryfderau presennol – lled-ddargludyddion cyfansawdd a gwyddor data – ochr yn ochr â'r sefydliadau academaidd presennol sydd yn uchel eu parch, Prifysgol Caerdydd a Phrifysgol De Cymru.

Roedd yr Arweinydd yn edrych ymlaen at gydweithio'n agos gyda phartneriaid o'r diwydiant, y byd academaidd, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar y datblygiad cyffrous hwn.

## Dinas Llwybr Carlam

Daeth Casnewydd yn ddinas llwybr carlam yr wythnos diwethaf, gan ymuno â rhwydwaith byd-eang o dros 300 o ddinasoedd sydd wedi ymrwymo i ddileu heintiau HIV a marwolaethau sy'n gysylltiedig ag AIDS.

Mae'r fenter ryngwladol sy'n gweithio i ddod ag achosion newydd o HIV i ben erbyn 2030, heb unrhyw farwolaethau y gellir eu hatal sy'n deillio o HIV/AIDS, dim stigma a dim gwahaniaethu ac ansawdd bywyd gwell i bobl sy'n byw gyda HIV.

Gweithiodd y Cyngor yn agos gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a Pride in the Port i sefydlu grŵp Casnewydd Llwybr Carlam i ddod yn ddinas braenaru, gyda'r potensial i'r cynllun ehangu i ardal ehangach y bwrdd iechyd.

### Byddai grŵp Casnewydd yn canolbwyntio ar dair blaenoriaeth i ddechrau:

- 1) Cynyddu ymwybyddiaeth o brofion a'r niferoedd sy'n cael eu profi.
- 2) Lleihau'r stigma ynghylch HIV.
- 3) Cysylltu â chymunedau sydd, yn draddodiadol, heb eu gwasanaethu'n ddigonol o ran mynediad at wasanaethau HIV.

Mae hyn yn ymwneud â chefnogi cymunedau, a bydd ymuno â Dinasoedd Llwybr Carlam yn rhoi cefnogaeth ac adnoddau rhwydwaith byd-eang o wybodaeth a phrofiad i ddefnyddio ar lefel leol i sicrhau canlyniadau cadarnhaol i bobl sy'n byw gydag HIV.

### Cynllun cyflogaeth a sgiliau newydd

Mae Casnewydd wedi cyflwyno llawer o gynlluniau rhagorol sydd wedi helpu pobl leol i wella eu rhagolygon cyflogadwyedd.

Mae prosiect newydd - cynllun cyflogaeth a sgiliau'r Gronfa Ffyniant Gyffredin - yn cynnig cymorth i bobl a allai fod wedi colli allan ar lwybrau cymorth eraill.

Mae'r cynllun yn agored i bobl ddi-waith a phobl sydd mewn gwaith os ydynt yn bodloni meini prawf penodol. Byddai'n gweithio gydag unigolion i roi'r offer sydd eu hangen arnynt i'w helpu i gael gwaith cynaliadwy, dysgu pellach neu her newydd.

Wedi'i ariannu gan Lywodraeth y DU drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU a'i ddarparu gan y Cyngor, byddai'n helpu i sicrhau bod gan bob preswlydd fynediad at gymorth ac yn ennill y sgiliau sydd eu hangen arnynt i wella eu rhagolygon swyddi.

Mae rhagor o wybodaeth am y cynllun a sut i gymryd rhan ar gael ar ein gwefan.

### Mynd i'r afael â thai gwag

Yng nghyfarfod diwethaf y Cabinet, cefnogwyd cynnig i geisio barn trigolion ar gyflwyno premiwm ar dreth y cyngor ar gyfer cartrefi gwag ac ail gartrefi tymor hir.

Mae'r galw am dai fforddiadwy yn drech na'r cyflenwad ond mae dros 800 o eiddo yn y ddinas sydd wedi bod yn wag am o leiaf blwyddyn a 15 o ail gartrefi.

Ym mis Mawrth, roedd dros 450 o aelwydydd mewn llety dros dro. Roedd dros 8,500 o bobl wedi cofrestru ar gyfer tai cymdeithasol ond yn 2021/22 dim ond 686 o dai cymdeithasol newydd ar osod oedd ar gael.

O'r ffigurau hyn roedd cymhelliant i gymryd camau i gynyddu argaeledd tai fforddiadwy o ansawdd da, yn eu tro, gan helpu i fynd i'r afael â digartrefedd.

Gwnaed ymdrechion sylweddol i annog perchnogion cartrefi gwag i'w dychwelyd i ddefnydd buddiol, ond ni chafwyd fawr o lwyddiant.

Caniateir i gynghorau godi premiwm treth gyngor o hyd at 300 y cant ac mae'r rhan fwyaf ledled Cymru eisoes wedi dechrau, neu ar fin dechrau, codi tâl.

Adeg y cyfarfod, roedd yr ymgynghoriad yn fyw ar wefan y Cyngor, ac anogodd yr Arweinydd bobl i ddweud eu dweud ar gynllun ac a ydynt yn credu y byddai'n gam cadarnhaol i'r ddinas.

#### Dydd Sadwrn y Busnesau Bach

Mae Cyngor Dinas Casnewydd unwaith eto yn cefnogi Dydd Sadwrn Busnesau Bach a gynhaliwyd dros y penwythnos yn dilyn y Cyngor.

Roedd yr ymgyrch yn ddathliad o'r busnesau annibynnol sy'n rhan hanfodol o'r economi leol ac yn annog pawb i "siopa'n lleol".

Mae Dydd Sadwrn y Busnesau Bach yn rhoi'r sylw cenedlaethol ar siopa'n lleol, ond mae'r neges hefyd yn ymwneud â siopa'n lleol bob dydd.

Pan fyddwch chi'n siopa'n lleol, mae mwy o arian yn aros yn y gymuned.

Mae gwario arian gydag aelodau annibynnol lleol hefyd yn annog mwy o fasnachwyr bach i sefydlu yn y ddinas. A po fwyaf o fusnesau sy'n gweithredu yng nghanol dinas Casnewydd, y mwyaf bywiog y daw.

Boed yn siopa Nadolig neu'n siopa bob dydd anogodd yr Arweinydd drigolion i siopa'n lleol, prynu'n lleol a chefnogi busnesau annibynnol lleol.

#### Rhestrau digwyddiadau newydd

Lansiwyd porth digwyddiadau newydd i drigolion archwilio'r holl ddigwyddiadau anhygoel oedd gan Gasnewydd i'w cynnig - gyda'i gilydd mewn un lle.

Mae gan Gasnewydd enw da cynyddol fel cynhaliwr digwyddiadau mawr fel y marathon, yn ogystal â rhai digwyddiadau rheolaidd gwych fel At Drywydd y Nadolig.

Creodd y Cyngor, gan weithio gyda sefydliadau ar draws y ddinas, borth digwyddiadau newydd ar gyfer archwilio popeth oedd gan Gasnewydd i'w gynnig, un y gallwn ni gyfrannu ato, a'i ddefnyddio.

O sgysiau a theithiau cerdded, cerddoriaeth fyw a pherfformiadau, i siopa hwyr y nos, digwyddiadau cymunedol a ffeiriau gwaith.

Gall unrhyw un sy'n trefnu digwyddiad yng Nghasnewydd gyflwyno manylion gan ddefnyddio ffurflen syml a byddai yno i bawb ei gweld.

Edrychwch ar <https://whatsoncityofnewport.co.uk/cy/>

#### Cwestiynau i'r Arweinydd

##### Y Cynghorydd Evans:

Mae cynghorau yng Nghymru yn cefnogi masnachwyr yn ystod cyfnod y Nadolig. Cyfeiriodd y Cynghorydd Evans at y cynllun parcio a theithio oedd yn arfer gweithredu yng Nghasnewydd. Yn ogystal, soniodd y Cynghorydd Evans am y cynllun bws rhad ac am ddim dros dro blaenorol. Cyfeiriodd y Cynghorydd Evans at yr Arweinydd yn sôn ym mis Tachwedd 2021 fod y fenter yn hwb i'r busnesau lleol yn ogystal ag annog y defnydd o

drafnidiaeth fwy cynaliadwy. Byddai hyn yn ffordd wych o wella nifer yr ymwelwyr ac atal trigion Casnewydd rhag mynd i Gwibrân neu ganolfannau siopa y tu allan i'r dref.

#### Ymateb:

Atebodd yr Arweinydd ei bod hi'n sefyllfa wahanol iawn yn 2021. Oherwydd y pandemig, Roedd Casnewydd mewn sefyllfa i ysgogi economi gyda chymhorthdal teithio am ddim. Trwy Trafnidiaeth Cymru, Llywodraeth Cymru a Chomisiwn Burns, llwyddodd y Cyngor i ariannu teithio am ddim ymhellach ar draws dinas Casnewydd. Yn yr amgylchedd ariannol presennol, yn anffodus nid oedd adnoddau ar gael i weithredu'r cynlluniau ar y lefel a welwyd o'r blaen. Roedd yr Arweinydd yn falch iawn o weld y fenter yr oedd Trafnidiaeth Casnewydd wedi'i chyflwyno i sicrhau y gallai teuluoedd fwynhau cyfradd teithio is gyda thocyn teulu gwerth £5 i deuluoedd symud ar draws y ddinas. Ychwanegodd yr Arweinydd pe bai'r adnoddau ar gael i'r Cyngor, y byddai'n hyrwyddo ac yn cefnogi trafnidiaeth gyhoeddus am ddim a chymhorthdal.

Fodd bynnag, roedd pwysau cynyddol ar adnoddau, ac yn enwedig y gyllideb refeniw. Byddai'r Arweinydd yn cefnogi busnesau yng nghanol y ddinas, er enghraifft, ni fyddai busnesau cymwys yn talu ardrethi eleni oherwydd bod Cyngor Dinas Casnewydd yn darparu cymhorthdal cyfradd o 25%, a oedd yn cyd-fynd â chymhorthdal LIC 75%. Er mai dim ond un enghraifft oedd hyn, dangosodd benderfyniad ymwybodol i gefnogi busnesau yng nghanol y ddinas.

#### Y Cyngorydd Morris:

Mae ceisiadau gan drigion Llyswry i Jessica Morden, Swyddfa AS, yn cael eu trosglwyddo'n uniongyrchol i'r Arweinydd. Cyfeiriodd y Cyngorydd Morris at ddigwyddiad parhaus yn Thompson Avenue ynghylch reen; A allai'r Arweinydd felly hwyluso cyfarfod brys gydag aelodau Ward Llyswry ac uwch swyddogion priodol i fynd i'r afael â'r mater.

#### Ymateb:

Eglurodd yr Arweinydd fod, o ran proses, un pwynt cyswllt i gyfleu unrhyw faterion yn effeithiol. Roedd yr Arweinydd yn hapus i hwyluso cyfarfod gydag aelodau'r ward ac uwch swyddogion.

#### Y Cyngorydd Whitehead:

Pe bai'r Arweinydd yn llwyddiannus fel ymgeisydd Comisiynydd Heddlu a Throsedd fis Mai nesaf, a fyddai'n rhoi'r gorau iddi fel Arweinydd y Cyngor.

#### Ymateb:

Dywedodd yr Arweinydd mai hi oedd aelod y blaid Lafur a ddewiswyd fel ymgeisydd yng Ngwent, er eglurder. Fodd bynnag, pe bai'r Arweinydd yn llwyddiannus mewn etholiadau ym mis Mai, byddai'r Arweinydd yn ymddiswyddo fel Arweinydd yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Cyngor ym mis Mai.

#### Y Cyngorydd Bright:

Cyfeiriodd at y stondin yn y brif dderbynfa, gan dynnu sylw at yr ymgyrch rhuban gwyn a gofynnodd a allai'r Arweinydd ddiweddar ei gydweithwyr ar ran Cyngor Dinas Casnewydd yn yr ymgyrch.

#### Ymateb:

Gobaith yr Arweinydd oedd i Aelodau eraill fanteisio ar y cyfle hefyd i gymryd amser i ymweld â'r stondin gan nodi bod rhai Aelodau yn gwisgo'r sticer rhuban gwyn.

Mae'r rhuban gwyn yn ymgyrch a gydnabyddir yn rhyngwladol a ddechreuodd yng Nghanada ym 1991 a phob blwyddyn, yn y DU, ar 25 Tachwedd, diwrnod y Cenhedloedd Unedig ar gyfer dileu trais yn erbyn menywod.



Nod yr ymgyrch yw atal trais dynion tuag at fenywod a merched drwy fynd i'r afael â'i achosion sylfaenol: normau dynol niweidiol a dominyddol. Dyheadau fel adeiladu cymuned o wneuthurwyr newid, codi ymwybyddiaeth drwy ymgyrchoedd, annog pawb i wneud addewid y rhuban gwyn, addysgu pobl ifanc a dwyn llunwyr polisi i gyfrif.

Y thema eleni oedd 'Newid y Stori', gan annog dynion a bechgyn i newid y stori ar gyfer menywod a merched ledled y DU. Amlygodd yr Arweinydd ffigurau i gydweithwyr, gan ychwanegu bod 1.7 miliwn o fenywod yn y flwyddyn a ddaeth i ben 2022 wedi profi cam-drin domestig.

Adroddodd Heddlu Gwent 2,693 o ddigwyddiadau cam-drin domestig yng Nghasnewydd, a dyna pam roedd angen Diwrnod y Rhuban Gwyn i newid y stori.

O fewn y Cyngor, roedd cwis ar-lein i swyddogion ymgysylltu ag ef i godi ymwybyddiaeth, ymgyrch cyfryngau cymdeithasol, anfon negeseuon allweddol a'r stonidin yng nghyntedd i hyrwyddo'r ymgyrch ac ymgysylltu â thrigolion, aelodau, swyddogion ac ymwelwyr. Byddai'r Pennaeth Diogelu a'r hyrwyddwyr hefyd yn helpu gyda'r hyrwyddiad yn ystod y cyfnod.

Gobeithiai'r Arweinydd, trwy gydweithio â Rhuban Gwyn y DU, y byddai'n gallu chwifio baner rhuban gwyn y flwyddyn nesaf yn y Ganolfan Ddinesig i nodi'r digwyddiad pwysig hwn yn y calendr.

#### 14. **Cwestiynau i Aelodau'r Cabinet**

##### **Y Cynghorydd Chris Reeks:**

Gyda rheoliadau gwastraff newydd ar gyfer busnesau yn cael eu cyflwyno o 6 Ebrill 2024, gan Lywodraeth Cymru, a all yr Aelod Cabinet gadarnhau pa gynlluniau y bydd y Cyngor yn eu gweithredu i gefnogi busnesau Casnewydd gyda'r rheoliadau hyn a pha fesurau ychwanegol sy'n cael eu rhoi ar waith yn y Ganolfan Trosglwyddo Gwastraff i ymdopi â'r meintiau cynyddol?

##### **Ymateb gan y Cynghorydd Yvonne Forsey, Yr aelod cabinet dros newid yn yr hinsawdd a bioamrywiaeth:**

Ar hyn o bryd mae CDC yn ailgynllunio ei wasanaethau casglu gwastraff masnachol mewn partneriaeth â Wastesavers, fel y gall ddarparu un gwasanaeth integredig i fusnesau.

Bydd CDC yn gallu darparu'r holl fusnesau gyda'i anghenion casglu erbyn 4 Ebrill trwy ystod o atebion sydd fwyaf addas i fusnesau unigol.

Mae ein timau cyfathrebu yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru sy'n arwain ymgyrch ymgysylltu, gyda gwefan bwrpasol a chyfathrebu wedi'i deilwra i bob busnes yng Nghymru, gan gynnwys llythyrau at bob busnes yng Nghasnewydd, i'w hatgoffa o'r gofynion. Rydym hefyd wedi cysylltu â'n holl gwsmeriaid presennol yn uniongyrchol a byddwn yn parhau i ymgysylltu'n ehangach â sefydliadau ledled Casnewydd cyn y newidiadau.

##### Cwestiwn Ategol:

Gofynnodd y Cynghorydd Reeks a allai'r Aelod Cabinet gadarnhau a oedd unrhyw gynlluniau i gyflwyno casglu gwastraff pecynnu plastig i fusnesau i'w ailgylchu yn yr un modd ag y gwnaeth archfarchnadoedd mwy ar gyfer pecynnu plastig siopwyr.

##### Ymateb:

Dywedodd y Cynghorydd Forsey fod y wybodaeth ailgylchu fel y nodir mewn deddfwriaeth ac y byddai'n cael ei chyfleu i bobl a chynhaliwyd trafodaeth ehangach yn y Pwyllgor Craffu Perfformiad – Lle a Chorfforaethol.

